

# Pum cam tuag at fod yn brifysgol neu goleg sy'n arbed ynni

Mae anghenion ynni'r sector addysg bellach ac addysg uwch yn cynyddu wrth i niferoedd myfyrwyr gynyddu. Bydd ein cynllun pum-cam yn eich helpu chi i leihau eich defnydd o ynni, dod yn fwy cynaliadwy *ac* arbed arian i'w fuddsoddi mewn cyfleusterau dysgu.

## 1: Deall eich costau ynni

Byddwch chi'n gwybod o edrych ar eich bil ynni ei fod yn cynnwys dau brif fath o gostau: **costau ynni** a **chostau nad ydynt yn gostau ynni** – a bydd angen i chi fynd i'r. afael â'r ddau er mwyn i chi gael gostyngiad sylweddol yn eich bil cyfan.

Mae eich **costau ynni** yn cael eu pennu ar sail pris cyfanwerthu trydan. Ond gallwch chi leihau'r gost hon drwy fod yn glyfar o ran sut a phryd byddwch chi'n defnyddio ynni, a thrwy addysgu aelodau staff ynglŷn â phwysigrwydd effeithlonrwydd ynni.

Mae eich **costau nad ydynt yn gostau ynni**, sef y rhan fwyaf o'ch bil fel rheol, yn talu am bethau fel eich defnydd o'r grid a datgarboneiddio cyflenwad trydan y Deyrnas Unedig. Y newyddion da ydy y gallwn ni'ch helpu chi i leihau'r rhain gydag ambell i newid syml yn y ffordd rydych chi'n rheoli'ch ynni – a'ch helpu chi i esbonio'r cymhlethdodau sydd ynghlwm â rheoli costau nad ydynt yn gysylltiedig ag ynni i reolwr y gyllideb (gweler y **daflen syml** hon sy'n egluro costau nad ydynt yn gostau ynni).

## 2: Canfod unrhyw newidiadau sy'n arbed ynni y gallwch eu gwneud

Er mwyn lleihau eich costau ynni, mae angen i chi edrych ar y ffordd rydych chi'n defnyddio trydan ar draws eich campws. Dechreuwch drwy ddefnyddio unrhyw systemau presennol i'w llawn gapasiti. Os ydy eich system rheoli adeiladau yn eich galluogi i greu ardaloedd a gosod amseroedd gwahanol ar gyfer cael y gwres ymlaen mewn adeiladau gwahanol, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hynny, yn enwedig mewn adeiladau lle mae pobl ynddynt yn ysbeidiol. Hefyd, ydy'r thermostatau wedi eu lleoli yn y mannau cywir? Gallai gormod o heulwen neu aer oer gael effaith wael ar y ffordd y mae'r rhain yn gweithio. Ar gyfer y rhai mewn lleoliadau tiwtorial, 19-21°C ydy'r tymheredd delfrydol. Ond mewn gweithdai – lle mae llawer o gyfarpar – gallech chi osod y tymheredd yn is, ar 16-19°C**.

Gyda'n hoffer awdit a monitro byw, gallwch chi ddeall yn well sut rydych chi'n defnyddio ynni, canfod cyfleoedd i wneud arbedion a chadw golwg ar berfformiad. Mae **PowerReport**, ein datrysiad cyflym sy'n gweithio o bell, yn rhoi'r trosolwg cyflymaf i chi o'ch holl safleoedd gydag ychydig iawn o amharu ar bethau. I Goleg Technoleg Gogledd Ddwyrain Surrey (NESCOT), roedd yr arbedion hyn yn £29,000 y flwyddyn. Neu mae gennym ni **PowerNow**, datrysiad manwl â dangosfwrdd digidol sy'n rhoi mewnwelediad i chi yn fyw ar ddefnydd ynni mewn asedau ynni unigol, i'ch helpu chi i wneud gwelliannau parhaus o ran effeithlonrwydd.

**Gallai mesurau effeithlonrwydd ynni roi gostyngiad o 25% yn allyriadau carbon y sector***

**Ffynonellau:** * https://www.carbontrust.com/resources/guides/sector-based-advice/further-and-higher-education/ ** https://www.carbontrust.com/media/39208/ctv020_further_and_higher_education.pdf

EDF Energy Ltd ar ran EDF Energy (UK) Limited, (Rhif Cofrestredig 2622406). Swyddfa gofrestredig: 90 Whitfield Street, Llundain, W1T 4EZ.



Ysgrifenwyd fis Hydref 2018

TEC ENERGY & EDUCATION CONNECTED

EDF

## 3: Gwneud y gorau o'r gefnogaeth sydd ar gael

Fel cwsmer i EDF Energy, mae gennych fynediad at amrediad llawn o wasanaethau cymorth yn **www.edfenergy.com/TEC**. Yma hefyd, mae ein gweminarau sy'n rhoi golwg newydd ar bob math o destunau: o baratoi at y gaeaf i reoli taliadau cysoni.

Gallai ein gwasanaethau cymorth arbenigol eich helpu chi i arbed ynni ac arian hefyd, drwy ganfod pryd rydych chi'n defnyddio trydan – fel bod modd symud tasgau nad ydynt yn rhai hanfodol (fel glanhau) y tu allan i'r amseroedd brig, pan fydd ynni yn rhatach. Er enghraifft, gwnaeth ein **gwasanaeth Triad Alert** sydd am ddim, arbed £158,000 i'r Swyddfa Feteorolegol mewn un flwyddyn yn unig. Rydym hefyd yn cynnig Adolygiad o Uchafswm Capasiti Mewngludo am ddim sy'n gallu'ch helpu chi i ddod yn fwy clyfar o ran ynni ac i leihau biliau gydag ychydig iawn o ymdrech. Canfyddodd NESCOT, er enghraifft, arbedion o £7,000 y flwyddyn drwy eu Hadolygiad o Uchafswm Capasiti Mewngludo.

## 4: Hyrwyddo arbed ynni

Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o leihau'r defnydd o ynni ydy addysgu aelodau staff ynglŷn â phwysigrwydd arbed ynni. Tynnwch nhw i mewn i bethau a gofynnwch am eu mewnbwn – ble maen nhw'n meddwl mae ynni'n cael ei wastraffu? Os mai staff glanhau ydy'r rhai olaf i adael yr adeiladau yn y nos, gwnewch yn siŵr eu bod nhw'n ymrwymo i hyn hefyd – a gosodwch hysbysiadau atgoffa gweledol 'diffoddwch' (mae sticeri a phosteri ar wefan yr **Ymddiriedolaeth Garbon**) ym mhob adeilad.

Gallech chi benodi Hyrwyddwyr Ynni i wirio bod goleuadau a chyfarpar yn cael eu diffodd ar ddiwedd y dydd, dros y penwythnos neu dros wyliau. Gallai monitro eich goleuo yn unig leihau eich costau 15%.† Ystyriwch gynnal ymgyrch 'diffoddwch' i roi hwb gychwynnol i'ch menter, ac i hyrwyddo manteision arbed ynni i staff a myfyrwyr. Canolbwyntiwch ar yr effaith y gallai arbed ynni ei chael ar adnoddau staff (rhyddhau arian i'w wario ar gyfleusterau dysgu), ac enw da'r brifysgol neu'r coleg o ran cynaliadwyedd. A thynnwch y myfyrwyr i mewn hefyd – yn arbennig cyrff fel UCM neu grwpiau amgylcheddol – oherwydd os oes gennych lety ar eich safleoedd, bydd y myfyrwyr yn defnyddio cyfleusterau bob awr o'r dydd a'r nos. Anogwch y myfyrwyr i ddiffodd goleuadau neu gyfarpar ar ddiwedd tiwtorialau; rhoi gwybod am broblemau gydag offer rheoli systemau gwresogi yn hytrach na cheisio eu trechu; a defnyddio cyfleusterau fel golchdai y tu allan i'r amserau brig o ran galw.




## 5: Buddsoddi mewn effeithlonrwydd ynni

Gosodwch switsys gyda dyfeisiau amseru i ddiffodd cyfarpar TGCh ar ddiwedd y dydd a synwyryddion golau mewn toiledau, ac ystafelloedd a ddefnyddir yn achlysurol mewn adeiladau addysgu a neuaddau preswyl. Gall synwyryddion arbed 30% ar gostau goleuo.† Peidiwch ag anghofio diffodd peiriannau diodydd poeth gyda'r nos ac ar benwythnosau hefyd.

Ymhlith y newidiadau adnewyddu bychain y gallech eu hystyried mae gosod cynteddau drafft (set ddwbl o ddrysau), neu gysylltu goleuadau â switsys rheoli ar wahân fel bod modd diffodd y rhai sydd ger ffenestri yn annibynnol ar y rhai sydd mewn rhannau eraill o'r ystafell.†

Os oes gennych ofynion uchel neu gyson o ran gwresogi drwy gydol y flwyddyn – er enghraifft, pyllau nofio ar eich safle – meddyliwch am gael gorsaf gwres a phŵer cyfunedig. A pheidiwch ag anghofio siarad â ni: rydyn ni wastad yn chwilio am ffyrdd i'ch helpu chi i ddod yn fwy effeithlon o ran ynni.

**Tynnwch y myfyrwyr i mewn – ac arbedwch ynni yn eu neuaddau preswyl hefyd**

**Ffynonellau:** * https://www.carbontrust.com/resources/guides/sector-based-advice/further-and-higher-education/ ** https://www.carbontrust.com/media/39208/ctv020_further_and_higher_education.pdf
† https://www.carbontrust.com/media/196392/ctv028-local-authorities.pdf




Ysgrifenwyd fis Hydref 2018


TEC ENERGY & EDUCATION CONNECTED


EDF Energy Ltd ar ran EDF Energy (UK) Limited, (Rhif Cofrestredig 2622406). Swyddfa gofrestredig: 90 Whitfield Street, Llundain, W1T 4EZ.